George Lewis, 1763–1822
Gweinidog (A), diwinydd, athro ac esboniwr Beiblaidd

Pa rhinwedd fuasai pryni
Anfarwoldeb i neb – ni
Fu nes i'w phrynu'n ei phris
O law Ner, na George Lewis.

Rhan o gywydd er cof am George Lewis
o'r Dysgedydd *1822*

Ganwyd George Lewis mewn bwthyn o'r enw Coed rhwng Trelech a Sanclêr, Caerfyrddin. Aelodau o'r eglwys sefydledig oedd ei rieni i ddechrau, ond yna ymaelododd ei dad ag eglwys Annibynnol Trelech. Cafodd addysg gynnar gan offeiriaid lleol ac Owen Davies, gweinidog Annibynwyr, Trelech, ac yr oedd yn fachgen ifanc darllengar a chrefyddol. Ymaelododd â'r achos Annibynnol yn Nhrelech pan oedd yn bymtheg oed a gwelwyd yn fuan fod ganddo'r doniau angenrheidiol ar gyfer y weinidogaeth. Derbyniodd addysg bellach yn ysgolion John Griffiths, Glandŵr, a David Davis, Castellhywel. Pan oedd yn ddeunaw oed aeth i'r athrofa Ymneilltuol yng Nghaerfyrddin gan dreulio tair blynedd yno o dan brifathrawiaeth Robert Gentleman. Derbyniodd alwad i fugeilio eglwys Annibynnol Caernarfon ym 1784, ac yn ystod ei arhosiad o naw mlynedd yno sefydlodd nifer o achosion newydd yn y sir. Bu o fewn trwch blewyn i ymfudo i America ond fe'i gwahoddwyd gan y cymwynaswr hael hwnnw Thomas Jones o Gaer i fod yn arolygydd ar nifer o ysgolion teithiol yn y gogledd. Ar yr un pryd derbyniodd alwad i weinidogaethu ar eglwys Llanuwchllyn, a chydag ardal Penllyn y cysylltir ei enw fynychaf gan iddo weithio yno am ddwy flynedd ar bymtheg. Yma gwnaeth enw iddo'i hun fel esboniwr Beiblaidd.

Cyhoeddodd nifer o bamffledi a llyfrau yn ystod ei oes. Fel esboniwr Beiblaidd a diwinydd yr oedd ben ac ysgwydd yn uwch

na'i gyfoedion, a hynny'n bennaf oherwydd ei bwyll a'i gytbwysedd, ond hefyd oherwydd ei wybodaeth ysgrythurol a oedd heb ei ail. Gwelir cyfuniad o'r cryfderau hyn yn y *Drych Ysgrythyrol neu Gorph o ddiwinyddiaeth* (1796) a fu'n llawlyfr yn y colegau diwinyddol trwy gydol y 19eg ganrif. Ei fwriad oedd cyhoeddi esboniad ar y Testament Newydd ond bu farw cyn cwblhau'r gwaith. Cyhoeddwyd y tair cyfrol gyntaf tra oedd yn Llanuwchllyn (1802), a'r bedwaredd yn Wrecsam (1815). Ymddangosodd y gweddill wedi iddo farw, mewn tair cyfrol o dan olygyddiaeth ei fab-yng-nghyfraith Edward Davies. Argraffodd hefyd rai llyfrynnau at ddefnydd ysgolion ac ysgolion Sul, megis *Arweinydd i blentyn*, *Hymnnau i'r Ysgolion Sabothol*, *Catecsim Athrawiaethol ac Ymarferol* a'i *Arweinydd i'r Anwybodus*.

Fe'i holynwyd fel gweinidog yn Llanuwchllyn gan Michael Jones, tad Michael D. Jones. Derbyniodd wahoddiad i ofalu am athrofa Annibynnol yn Wrecsam fel olynydd i Jenkyn Lewys. Gwaith yr athrofa oedd paratoi dynion ieuanc ar gyfer y weinidogaeth. Ar ôl treulio tair blynedd yno symudodd yr Athrofa gyda George Lewis i Lanfyllin (1815–21) ac yna 'Y Drenewydd' (1821) lle yr oedd hefyd yn weinidog ar eglwysi ac yn dysgu myfyrwyr. Bu farw lai na blwyddyn ar ôl symud i'r Drenewydd, ar 5 Mehefin 1822.